

Cyngor Cymuned Y Bontnewydd
COFNODION CYFARFOD MISOL
6 Mawrth 2014 7.00 yh Y Ganolfan, Y Bontnewydd

PRESENNOL :

Cynghorwyr Sioned Williams, Emyr Williams, Ifor D. Williams, Geraint R. Jones,
Dafydd Iwan, Edd Huws
Cadeirio: Erddyn Davies
Huw Llwyd Rowlands, Clerc

Hefyd, ar ddechrau'r cyfarfod, Mr Huw Williams, Pennaeth Ymgynghoriaeth
Gwynedd

**Cyflwyniad gan Mr Huw Williams, Pennaeth Ymgynghoriaeth Gwynedd ar y
Cynllun Rheoli Traethlin a materion newid hinsawdd.**

Eglurodd Huw Williams fod y Cynllun Rheoli Traethlin yn cynnwys strategaeth
Cyngor Gwynedd o ran diogelu traethlin Gwynedd a bod unrhyw ymdrech i godi
ymwybyddiaeth y cyhoedd a rhoi cyhoeddusrwydd i'r cynllun i'w groesawu.

Bu i'r tywydd gwael diweddar amlygu'r difrod y gall llanw uchel a gwynt cryf ei
achosi, a bydd newid hinsawdd yn y dyfodol yn gwaethygu hyn. Bydd
penderfyniadau anodd yn gorfod cael eu gwneud yn y dyfodol o ran sut i
ddefnyddio'r adnoddau sydd ar gael i ddiogelu'r arfordir.

1. DATGAN DIDDORDEB / BUDDIANT PERSONOL

Dim.

2. YMDDIHEURIADAU

Y Cynghorydd Rhys Pugh a Gwyneth Thomas

3. CADARNHAU COFNODION Y CYFARFOD DIWETHAF

Cadarnhawyd.

Cynnig: Geraint R. Jones Eilio: Ifor D. Williams

4. MATERION YN CODI O'R COFNODION

4.1 PROBLEMAU PARCIO LÔN GROES

Penderfynwyd fod pob ymdrech resymol wedi ei wneud i geisio datrys problem
barcio Lôn Groes. Nid oes gan Gyngor Gwynedd unrhyw fwriad, yn enwedig yn
yr hinsawdd ariannol bresennol i wario i ddarparu llefydd parcio ychwanegol, ac
nid oes gan y Cyngor Cymuned unrhyw arian nac adnoddau i wneud hynny ei
hun.

4.2 GOSOD TIR PARC Y PLWYF, LLANFAGLAN

CYNGOR CYMUNED BONTNEWYDD :

Cofnodion cyfarfod MAWRTH 2014

Bu i oriadau yr hysbysfyrddau yn Y Bontnewydd ac yn Llanfaglan fynd ar goll. Mae'r Clerc wedi cael goriadau yn eu lle, ond nid ydynt yn gweithio. Nid oedd hi felly'n bosibl gosod hysbyseb yn gofyn am ddiddordeb i bori'r cae y tu ôl i Barc y Plwyf. Mae'r Clerc i gysylltu â North Wales Fencing er mwyn cael goriadau sy'n gweithio.

4.3 FFOSYDD RHOS-BACH AT GAE HOBSON

Mae'r Clerc wedi ysgrifennu at Gyngor Gwynedd gan ofyn iddynt wneud y gwaith, sef i leinio'r ffos, gosod llinell wen ac ymylfaen, ac mae'n disgwyl clywed gan y Cyngor gydag awgrym o tua phryd y bydd y gwaith yn cael ei wneud.

4.4 CYFETHOL AELOD

Nid oes neb wedi ysgrifennu at y Clerc i ddangos diddordeb, er bod un person wedi mynegi diddordeb yn anffurfiol i un o'r cynghorwyr cyn y cyfarfod diwethaf.

4.5 AROSFAN BYSIAU BONTNEWYDD

Cafwyd pris gan Wyn Williams am waith paentio i'r arosfan sydd gyferbyn a'r siop sglodion i gyfeiriad Dinas.

Paentio hanner isaf y tu mewn yn unig, sef y set ac oddi tani £158.00

Paentio'r holl arosfan £218.00.

Cytunwyd i ofyn i Wyn Williams baentio hanner isaf yr arosfan fws.

4.7 SEMINAR SAFLEOEDD TAI POSIBL GWYNEDD A MńN

Fe fynychodd y Cynghorydd Dafydd Iwan a Chris Hughes y seminar cyn y Nadolig. Adroddodd Dafydd Iwan y byddai'n bosibl gwneud sylwadau ar y cynllun lleol ym Montnewydd, pan fyddai'r cyfnod ymgynghori yn cychwyn yn ffurfiol, a'r cynllun adnau yn barod tua mis Mai. Awgrymodd fod is-grŵp o 2 neu 3 yn cael ei ffurfio i graffu ar y bwriadau bryd hynny.

Codwyd y ffaith fod caniatâd cynllunio llawn wedi ei roi ar dir Cefnwerthlwyd ond nad oes unrhyw ddatblygiad wedi digwydd yno hyd yn hyn, ac felly ofer oedd son am dai newydd cyn i'r datblygiad yma gael ei gwblhau.

4.8 ADRODDIAD ARCHWILIO LLIFOGYDD BONTNEWYDD 22 TACHWEDD 2012

Mae'r Clerc wedi ysgrifennu at Gyngor Gwynedd er mwyn sicrhau fod y gwendidau o ran pibelli a llif y twr arweiniodd at y llifogydd yn cael eu cywiro.

4.9 CYFLWR Y FFORDD YN LLANFAGLAN

Mae'r Clerc wedi ysgrifennu at Gyngor Gwynedd, ac mae'r Cyngor wedi ymateb drwy ddweud fod y ffordd wedi ei gynnwys ar restr o safleoedd i'w hystyried am waith mwy sylweddol na chlytio brys. Yn anffodus, hyd yma nid yw wedi dod i'r brig o ran blaenoriaeth o'i gymharu â safleoedd eraill yn Arfon. Mae'n parhau i fod ar y rhestr i'w ystyried erbyn y flwyddyn ariannol nesaf. Yn y cyfamser bydd Cyngor Gwynedd yn archwilio'r ffordd a Lôn Groes yn unol â chanllawiau Cynllun Cynnal Asedau Priffyrdd Cyngor Gwynedd.

5. MATERION ARIANNOL

Cytunwyd i dalu :

Cyflog a chostau clerics Chwefror 2014

6. CYNLLUNIO a MATERION CYFREITHIOL ERAILL

Dim

7. GOHEBIAETH

Ymgynghoriad Llywodraeth Cymru ar fwriad i ddiwygio'r drefn gynllunio yng Nghymru ac ymateb Un Llais Cymru

Derbyniwyd er gwybodaeth

Cynllunio Morol

Cynhelir nifer o ddigwyddiadau cyhoeddus ym mis Mawrth 2014 er mwyn egluro cynllun morol Llywodraeth Cymru. Derbyn er gwybodaeth.

Llythyr gan y Cyngorydd John Wynne Jones yn gofyn am gefnogaeth cais Cyngor Gwynedd i S4C adleoli yng Nghaernarfon

Cytunwyd fod y Clerc yn ysgrifennu ar ran y Cyngor er mwyn cefnogi cais Cyngor Gwynedd i berswadio S4C i ail leoli yng Nghaernarfon.

Cefnogi Cais Hwyl y Bont a Thafarn Newborough Bontnewydd am arian Cronfa Pub is the Hub

Cytunwyd fod y Clerc yn ysgrifennu i gefnogi cais Tafarn y Newborough am gyllid er mwyn darparu offer fyddai o ddeunydd cymunedol yn y dafarn.

8. MATERION ERAILL

8.1 Llechi porth Eglwys Llanfaglan mewn cyflwr bregus

CYNGOR CYMUNED BONTNEWYDD :

Cofnodion cyfarfod MAWRTH 2014

Mae yna lechi rhydd ar ben y porth sydd yn arwain at Eglwys Llanfaglan. Gan y credir fod Eglwys Llanfaglan adeilad rhestredig penderfynwyd gofyn i'r Clerc ysgrifennu at Gyngor Gwynedd er mwyn deal y sefyllfa, cyn cymryd camau pellach.

8.2 Cylchdro Bontnewydd

Gofynnodd y Cynghorydd Geraint R. Jones beth oedd yn digwydd o ran gwaith gwella gwelediad ar y cylchdro yng nghanol pentref Bontnewydd, ger Glan Beuno.

Cynhaliwyd gwaith archwilio tua blwyddyn yn ôl ac roedd disgwyliad y byddai gwaith i wella'r gwelediad yn cael ei wneud.

Y Clerc i ofyn i Gyngor Gwynedd am ddiweddariad ar y sefyllfa.

9. MATERION EITHRIEDIG

Dim mater eithriedig i'w drafod

10. DYDDIAD Y CYFARFOD NESAF : 3 Ebrill 2014, am 7yh.